

Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol

CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Ym mis Hydref 2011 sefydlodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Grŵp Cynghori Annibynnol (IAG) i adolygu darpariaeth y system gynllunio yng Nghymru fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer Papur Gwyn, gan arwain yn y pen draw at Fesur Cynllunio Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r Grŵp.
2. Ym **Mhennod 1**, rydym yn amlinellu gwaith y Grŵp, agweddau ar gynllunio sy'n gyffredin ar draws Cymru a Lloegr, a'r rhai sy'n unigryw i Gymru. Rydym yn cyfeirio at Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac yn nodi y cyflwynwyd haen leol o gynllunio yn Lloegr, gyda goblygiadau ar gyfer esblygiad system gynllunio ar wahân i Gymru. Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddwyd Galwad am Dystiolaeth. Cawsom 110 o ymatebion oddi wrth drawstoriad eang o unigolion, busnesau, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus, grwpiau gwirfoddol, academyddion a chyrff proffesiynol. Trefnwyd trafodaethau bord gron gydag ymatebwyr ac unigolion a ddewiswyd oherwydd eu gwybodaeth a'u harbenigedd. Buom yn cwrdd â nifer o sefydliadau ac atebwyr unigol i archwilio eu tystiolaeth yn fanylach. Cyfarfu Cadeirydd y Grŵp Cynghori Annibynnol â swyddogion Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Lloegr, a siaradodd hefyd â swyddogion o Ogledd Iwerddon.
3. Yn gynnar yn y trafodaethau cyflwynwyd nifer o feini prawf sy'n disgrifio i'r Grŵp beth yw ystyr 'darparu gwasanaeth effeithiol'. Tynnir y rhain o'n cylch gorchwyl, o'n trafodaethau cynnar fel Grŵp ac o'r drafodaeth bord gron gyntaf. Maent yn: Amserol, Tryloyw, Democrataidd, Cyson, Sicr, Cynhwysol, Hygyrch, Syml, Hyblyg, Ymatebol, Posibl eu Cyflawni, yn sicrhau Canlyniadau Gwell, a Gwerth am Arian. Rydym wedi defnyddio'r meini prawf hyn i werthuso ein hargymhellion yn Nhabl A. Ein safbwynt ni yw bod gan y system gynllunio botensial mawr i greu cyfleoedd a diogelu adnoddau naturiol gwerthfawr, yn gynhenid ac ar gyfer lles y genedl yn y dyfodol; dylai fod yn ddifidend i ddatganoli, yn hytrach na diffyg.
4. Fel mae **Pennod 2** yn esbonio, rydym yn dechrau drwy archwilio a oedd tir cyffredin yn y proffesiwn cynllunio a chyda rhanddeiliaid am rôl a diben cynllunio. Yn ein Cais am Dystiolaeth, gofynnwyd ai "*darparu tir ar gyfer datblygu cynaliadwy*" yw hyn. Roedd yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn rhannu bron yn gyfartal, ac roedd gwahaniaeth barn tebyg yn y sesiwn bord gron lle cafodd hyn ei drafod. I grynhoi, barn y mwyafrif oedd mai diben cynllunio yw:
 - diogelu a gwella tir ac adeiladau pwysig
 - darparu tir addas mewn lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd

- rheoli datblygiad a defnydd tir er budd y cyhoedd

5. Rydym yn cefnogi'r cytundeb a luniwyd yn y drafodaeth bord gron bod cynllunio yn fwy na dim ond gweithgaredd rheoleiddio ac y dylai fod felly. Bydd system sy'n cael ei hystyried fel un rheoleiddiol yn unig yn sicrhau canlyniadau negyddol yn hytrach na rhai cadarnhaol.
6. Yn ein trafodaethau gydag ymatebwyr ar ddatblygu cynaliadwy, cafodd y diffiniad ym Mholisi Cynllunio Cymru ei gefnogi yn gyffredinol. Rydym yn ystyried y dylai unrhyw newid i'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ddod o'r gwaith ar wahân ar y Bil Cynaliadwyedd, ond na ddylid bod ag unrhyw ddiffiniad cyfreithiol ohono yn y Bil Cynllunio. Yn ein barn ni ddylid diffinio datblygu cynaliadwy mewn canllawiau cynllunio neu bolisiâu perthnasol.
7. Ni ellir ystyried tair elfen datblygiad cynaliadwy (yr amgylchedd, yr economi a chymdeithas) ar wahân. Yr her i bob cynllunydd yw chwilio am atebion llawn dychymyg ar gyfer goresgyn rhwystrau i ddatblygiad cynaliadwy, yn hytrach na gosod yr amgylchedd a datblygu economaidd yn erbyn ei gilydd mewn senario lle mae'r 'enillydd yn cymryd y cyfan'.
8. Rydym yn argymhell bod diben statudol ar gyfer cynllunio ar hyd y llinellau hyn yn cael ei gynnwys yn y Bil Cynllunio:
"Pwrpas y system cynllunio gwlad a thref yw rheoleiddio a rheoli datblygu a defnyddio tir mewn ffordd sy'n cyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy."
9. Ym **Mhennod 3**, rydym yn nodi rhai o'r materion a ddaeth i'r amlwg o'r Alwad am Dystiolaeth, ein cyfarfodydd a'r trafodaethau bord gron. Teimlai llawer o ymatebwyr fod angen Cynllun Gofodol Cymru diwygiedig neu fframwaith cynllunio gofodol cenedlaethol newydd i osod y cyd-destun strategol ar gyfer cynllunio *datblygiad* ar y lefel ranbarthol a lleol. Roedd galw am fwy o ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru yn y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), yn enwedig i oresgyn oedi. Rydym yn mynegi ein pryder y gall CDLI sydd â diffygion sylweddol ynddynt gyrraedd yr archwiliad annibynnol ar hyn o bryd; yr unig ddewis o ran ymyriad sy'n agored i Lywodraeth Cymru yw cymryd drosodd y gwaith paratoi.
10. Cafwyd galwad am fwy o fonitro gan Lywodraeth Cymru a chymhellion ar gyfer cyflenwi'r CDLI a pherfformiad o ran rheoli *datblygiad*. Roedd awydd cryf o sawl cyfeiriad am ddull o fynd i'r afael â materion traws-ffiniol fel rhan o'r broses cynllunio datblygiad. Rydym yn ystyried y gellir disgrifio agweddau presennol at faterion traws-ffiniol ar y gorau fel tameidiog, heb unrhyw strategaeth gyffredinol, cydlyniad na rhwymedigaeth i'w datrys. Rydym yn nodi bod y dimensiwn ranbarthol a ddarperir ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol ym meysydd polisi trafndiaeth, gwastraff a mwynau yn ymddangos fel pe bai ar goll ar gyfer tai a datblygu economaidd.
11. Yn ogystal â beirniadaeth o Awdurdodau Cynllunio Lleol am fethu â chadw at amserlenni Cytundebau Cyflenwi, mae beirniadaeth o'r broses archwilio, ond mae gan hyn fwy i'w wneud â'r fframwaith statudol ar gyfer archwilio'r CDLI na rôl yr Arolygydd. Ceir cwyn hefyd bod y broses mor gymhleth fel bod

rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn teimlo na allant ymgysylltu â'r gwaith o baratoi'r CDLI.

12. O ran y broses ymgeisio, roedd galw am i Lywodraeth Cymru wneud mwy o ddefnydd o'r weithdrefn galw i mewn i ddiogelu cymunedau rhag effeithiau posibl penderfyniadau gan awdurdodau cynllunio lleol (ACLI) sy'n cael eu hystyried i fod yn groes i'r graen. Roedd pryder nad oes unrhyw drefniadau rhanbarthol ledled Cymru ar gyfer ymdrin â cheisiadau sydd â goblygiadau traws-ffiniol neu ranbarthol. Un thema graidd yw'r diffyg cysondeb o ran y modd y cyflwynir y swyddogaeth rheoli datblygu ar draws Awdurdodau Cynllunio Lleol.
13. Pwysleisiodd pob sector bwysigrwydd hyfforddiant cynhwysfawr i Aelodau. Crybwyllodd nifer o gwmnïau ynni yr oedi a'r cymhlethdod o ran cael caniatâd ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy mawr oherwydd bod cyfrifoldeb am benderfyniadau ynghylch prosiectau seilwaith cenedlaethol yn cael ei rannu. O ran Cyngorau Tref a Chymuned, roedd cefnogaeth iddynt gael rôl ehangach, ond cydnabyddiaeth i'r problemau sy'n ymwneud â'u cwrpas, eu gallu a'u parodrwydd i gymryd rôl estynedig.
14. Awgrymwyd y dylai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (PC) golli eu pwerau cynllunio. Nodwn yr astudiaeth ar wahân gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cynllunio mewn tirweddau statudol a mynegwn y farn nad oes gennym ddigon o dystiolaeth i ddod i gasgliad. Am y rheswm hwn, ni wnawn unrhyw argymhelliad ynghylch a ddylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gadw pwerau cynllunio.
15. Roedd cefnogaeth i gyflwyno cyfryngu yn y broses gynllunio, o ran rheoli datblygu a phroses y CDLI.
16. Ar ddiwedd **Pennod 3** rydym yn ystyried y cwestiwn o hawliau trydydd parti i apelio, a gafodd ei drafod gyda nifer o sefydliadau ym mis Mai. Yn ein barn ni gellir goresgyn y materion a godwyd drwy fesurau eraill (a nodir ym mhennod 4) i annog a diogelu hawl y cyhoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau cynllunio a pharatoi cynlluniau. Rydym felly yn argymhell nad yw hawliau trydydd parti i apelio yn cael eu cyflwyno yng Nghymru.
17. Rydym yn cau **Pennod 3** drwy ystyried y dystiolaeth a'i goblygiadau. Rydym yn credu bod y system yn gysyniadol gadarn ac nad oes angen ei diwygio drwyddi; byddai gormod o newid yn creu ansicrwydd pellach ac yn atal buddsoddiad. Rydym yn nodi'r ddwy farn wahanol am gynllunio: fel rhwystr i dwf economaidd, a'r farn wahanol na ddylai anawsterau presennol roi blaenoriaeth i faterion economaidd ar draul pob mater arall. Rydym yn canfod, yn debyg i astudiaethau blaenorol, system o dan straen. Rydym yn dod i'r casgliad bod angen diwygio ac rydym yn nodi cyfres o **egwyddorion** y bwriedir i'n diwygiadau eu diwallu.
18. Mae **Pennod 4** yn nodi prif argymhellion yr adroddiad yn delio â rolau a chyfrifoldebau. Rhennir ein hargymhellion yn ddwy adran - **cynlluniau**

datblygu a ddilynir gan **reoli datblygu**; o fewn y ddwy adran hon rydym yn dilyn y drefn o **rolau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol**.

19. Prif rôl Llywodraeth Cymru o ran **cynllunio datblygiad** yw gosod y fframwaith cenedlaethol y mae awdurdodau cynllunio lleol yn darparu cynlluniau datblygu o'i fewn. Dylai fod ag amrywiaeth o bwerau wrth gefn i ymyrryd yn y gwaith o baratoi cynlluniau datblygu er mwyn atal unrhyw oedi afresymol neu gynnydd unrhyw gynlluniau diffygiol iawn. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn barod i ddefnyddio'r pwerau hyn os yw amgylchiadau'n gofyn am hynny. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn paratoi fframwaith datblygu cenedlaethol (FfDC), gan adeiladu ar *Raglen Cymru Fyw* i ddarparu fframwaith gofodol ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Rydym yn cydnabod y goblygiadau o ran adnoddau ac felly yn argymhell fel mesur dros dro fod statws dogfennau cenedlaethol mewn perthynas â chynllunio defnydd tir yn cael ei egluro.
20. Deuwn i'r casgliad, er bod dwy brif haen o gynllunio yn ddigonol i wlad o faint ein gwlad ni, na all yr holl faterion cynllunio gael eu hystyried yn effeithiol naill ai ar lefel genedlaethol neu leol. Rydym felly yn argymhell bod y Bil Cynllunio yn cynnwys fframwaith statudol i'w gwneud yn bosibl i gyflwyno cynllunio strategol ar lefel ranbarthol. Rydym yn cydnabod na fydd hyn yn angenrheidiol nac yn briodol ar gyfer Cymru gyfan ac felly rydym yn argymhell y dylid ymgynghori ynghylch ardaloedd a manylion y fframwaith statudol. Mae'n bosibl y dylanwadir ar yr ardaloedd gan y gwaith sy'n cael ei wneud ochr yn ochr â'n gwaith ni ar y dadleuon economaidd dros Ddinas-ranbarthau. Bydd angen strwythur gymorth i weithredu cynllunio strategol ranbarthol. Yn y cyfamser, dylai Llywodraeth Cymru annog cynllunio strategol gwirfoddol i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal mewn modd sy'n ddemocrataidd, yn gyson, yn atebol, yn dryloyw ac yn gynhwysol.
21. Rydym yn pwysleisio mai mecanwaith cyflenwi yw'r system gynllunio y gellir ei chymhwyso ar draws portffolios nifer o Weinidogion ac mae gweithredu ar y cyd ar bob lefel yn hanfodol os yw Llywodraeth Cymru i wireddu ei huchelgais i greu amodau ar gyfer twf. Mae ymagwedd gydgyssylltiedig ar draws pob lefel o Lywodraeth Cymru yn hanfodol i gyflenwi'r system gynllunio.
22. Rydym yn ystyried bod angen gwella, nid disodli, proses y CDLI. Rydym yn argymhell:
 - disodli'r profion cadernid
 - rhoi cyhoeddusrwydd i sylwadau Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Datblygu Lleol sydd ar y gweill
 - rheoliadau diwygiedig i sicrhau gwell adborth yn ystod y cam cyn-adneuo
 - lefelau uwch o ymgysylltu ystyrlon gyda'r holl randdeiliaid yn ystod pob cam.
23. Dylai'r Bil Cynllunio gynnwys pwerau i Weinidogion gyfarwyddo adolygiad annibynnol ar unrhyw adeg yn ystod paratoi'r cynllun. Dylai hefyd gynnwys pwerau i'r Arolygydd penodedig ganfod cynllun sy'n gadarn yn rhannol, gydag

argymhellion ar gyfer gwaith pellach, ac i Awdurdod Cynllunio Lleol wneud cais i Weinidogion Cymru wneud adolygiad rhannol o Gynllun Datblygu Lleol.

24. Rydym o'r farn fod gan Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ran bwysig i'w chwarae yn y broses gynllunio. Yn ogystal â bod yn gyfrwng pwysig ar gyfer ychwanegu manylion at bolisiâu CDLI, mae'n bosibl iddo gynnwys cymunedau a rhanddeiliaid eraill yn y manylion o sut y dylai safleoedd a neilltuwyd gael eu datblygu. Clywsom lawer o feirniadaeth am y modd y paratwir Canllawiau Cynllunio Atodol a'r amser a gymerir i'w paratwi, ac felly rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau polisi diwygiedig yn pwysleisio eu pwysigrwydd. Dylai fod craffu trwy broses y CDLI ar y Canllawiau Cynllunio Atodol a'r amserlen ar eu cyfer; rheoliadau ar gyfer eu paratwi, y pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r gwaith o baratwi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n bwysig yn genedlaethol, a phroses galw i mewn. Rydym hefyd yn rhagweld rôl ehangach i'r Cynghorau Tref a Chymuned yn y gwaith o baratwi rhai Canllawiau Cynllunio Atodol.
25. Gan droi at reoli datblygu, ystyriwn mai rôl Llywodraeth Cymru yw creu'r amodau sy'n galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddarparu gwasanaethau cynllunio yn lleol. Ond mae angen pwerau priodol hefyd i ymyrryd mewn modd effeithiol ac amserol.
26. Dylai Gweinidogion Cymru wneud penderfyniadau o arwyddocâd cenedlaethol. Rydym yn argymhell bod y Bil Cynllunio yn darparu fframwaith statudol ar gyfer penderfyniadau gan Weinidogion Cymru ar gynlluniau seilwaith cenedlaethol o bwys sydd wedi eu datganoli, ac i ddiffiniad o gynlluniau o'r fath gael ei benderfynu hefyd gan Weinidogion. Dylai datblygiad ategol mewn cysylltiad â chynlluniau nad ydynt wedi'u datganoli megis cynhyrchu ynni o dros 50 Mw gael ei drin gan yr un broses, a weinyddir trwy Gyfarwyddiaeth Cymru yr Arolygiaeth Gynllunio. Dylai polisiâu cenedlaethol ar gyfer seilwaith o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau; mae yna ddewisiadau ar gyfer gwneud hyn, gan gynnwys integreiddio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a argymhellwn ar ddechrau Pennod 4.
27. Dylai ceisiadau gael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru lle mae er budd y cyhoedd i wneud hynny; rydym yn argymhell newidiadau i'r broses galw i mewn i wella tryloywder. Rydym hefyd yn argymhell gweithdrefn adolygu gan Arolygydd Cynllunio pan fo awdurdod yn bwriadu cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddog. Dylai awdurdodau cynllunio lleol roi gwybod am bob penderfyniad sy'n groes i argymhellion Llywodraeth Cymru, gan ei gwneud yn bosibl i roi cyfarwyddiadau wedi'u targedu lle y bo'n briodol.
28. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r nifer fawr o gymeradwyaethau ategol sydd gyda nhw ar hyn o bryd sydd, ar ôl archwiliad, yn codi dim ond ystyriaethau lleol gyda'r bwriad o drosglwyddo penderfyniadau o'r fath i Awdurdodau Cynllunio Lleol, yn ddarostyngedig i hawl i apelio.

29. Rydym yn gweld dadl gref o blaid creu corff cenedlaethol i gasglu a lledaenu arfer orau o Gymru a thu hwnt; casglu gwybodaeth berthnasol genedlaethol; hyrwyddo hyfforddiant cyson ac wedi'i dargedu, cynghori, mentora a chynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol a grwpiau rhanbarthol, a datblygu'r defnydd o gyfryngu. Byddai'r corff hwn, y Pwyllgor Ymgynghorol a Gwella Cynllunio (PYGC/PAIB), yn gyfrifol am fwrw ymlaen gyda nifer o argymhellion o'r astudiaeth hon ac astudiaethau eraill o'r system gynllunio. Byddai'n hwb i'r gwaith o wella'r system a'r diwylliant cadarnhaol sy'n ofynnol.
30. Ni chanfuom unrhyw ddadl argyhoeddiadol i gefnogi creu Arolygiaeth Gynllunio ar wahân yng Nghymru, mae'r trefniadau presennol wedi gweithio'n dda ers blynnyddoedd lawer ac mae ganddynt lawer o rinweddau. Nid ydym yn ystyried bod Arolygiaeth ar wahân i Gymru yn flaenoriaeth o ran diwygio'r system gynllunio. Ond credwn y dylid cytuno ar brotocol gyda'r Arolygiaeth i ddarparu gwasanaeth pwrpasol ar gyfer ei holl swyddogaethau yng Nghymru ac y dylai ymgymryd â phrosiect cyfathrebu i esbonio ei rôl yn y system, yn enwedig y ffaith ei fod yn gwasanaethu Cymru yn gyfartal gyda Lloegr. Rydym hefyd yn argymhell adolygiad o'r system apelio i ystyried mabwysiadu sawl nodwedd o system yr Alban; darparu Arolygwyr gyda mwy o bwerau i reoli achosion; a chyflwyno proses llwybr carlam ar gyfer apelïadau yn erbyn methu â phenderfynu.
31. Er mwyn gwella a datblygu'r ffordd y mae rhai yr ymgynghorir â nhw yn statudol yn rhyngweithio â'r system gynllunio, rydym yn argymhell y dylai'r rhai sydd â'r dylanwad mwyaf gael eu hystyried yn rhan o'i fframwaith sefydliadol ac y dylai Llywodraeth Cymru lunio compact gyda nhw. Dylai'r Mesur Cynllunio gyflwyno hyn trwy osod dyletswydd arnynt i gyfrannu'n gadarnhaol at weithredu'r system yn effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys ymgymrwyr dŵr a charthffosiaeth.
32. Rydym yn gweld yr angen i wella rolau'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn y system gynllunio. Rydym yn rhagweld rôl ehangach i Gynghorau Tref a Chymuned yn gyffredinol, yn enwedig ym mhroses y CDLI; rôl a fydd yn cynnwys lledaenu gwybodaeth am geisiadau sy'n effeithio ar eu hardal, ac, ynghyd â grwpiau cymunedol cyffredinol eraill, paratoi cynlluniau cymunedol y gellir eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae'r rôl olaf hon yn deillio'n rhannol o'n dymuniad i gyflwyno proses a fyddai'n symlach ac yn fwy hyblyg na phroses y Cynllun Datblygu Cymdogaeth yn Lloegr.
33. Rydym o'r farn fod ar awdurdodau cynllunio lleol angen cymorth gyda phrosesu rhai ceisiadau trawsffiniol cymhleth a / neu strategol penodol, lle gallant rannu arbenigedd ac adnoddau, fel yr argymhellir yn Adroddiad Simpson. Gallai'r rhain gael eu prosesu a'u hasesu gan dimau arbenigol rhanbarthol, neu fel rhan o'r PYGC/PAIB.
34. Un thema gyson yn yr ymatebion a gawsom oedd yr angen am welliannau i dryloywder a chysondeb y Pwyllgorau Cynllunio. Rydym yn ystyried bod gan Bwyllgorau Cynllunio a'u haelodau rôl hanfodol ac rydym yn gweld hyn fel cyfle i greu grŵp o gynghorwyr hyfforddedig sy'n gallu gwneud penderfyniadau ar geisiadau sydd weithiau yn ddadleuol. Deuwn i'r casgliad y dylai hyfforddiant

ar gyfer aelodau Pwyllgorau Cynllunio fod yn orfodol. Rydym yn gwneud argymhellion ynghylch astudiaeth i sefydlu beth yw'r maint gorau i Bwyllgorau Cynllunio; rheoliadau sy'n ymwneud â chynlluniau dirprwyo a gweithdrefnau Pwyllgorau i sicrhau cysondeb ar draws y wlad; a Chod Ymddygiad penodol ar gyfer Cynllunio. Rydym hefyd yn argymhell bod cyfrifoldeb ar y cyd am baratoi CDLI yn nwylo'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio, er mwyn sicrhau bod gan aelodau'r Pwyllgor Cynllunio werthfawrogiad o'r broses o lunio cynllun, ac, yn y pen draw, berchnogaeth o'r Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi'i fabwysiadu.

35. Dylai unrhyw ymgeisydd posibl fod o fewn cyrraedd rhwydd i gyngor gan yr awdurdod cynllunio lleol, oherwydd dyna yw rôl yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ac mae o fudd i ansawdd y ceisiadau. Rydym yn ymwybodol o ganllawiau diweddar Llywodraeth Cymru ynghylch trafodaethau cyn cyflwyno cais, ond rydym o'r farn bod angen mwy. Rydym yn argymhell bod gan y Gweinidog y pŵer i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â thrafodaethau cyn cyflwyno cais, yn cynnwys Cod Ymarfer a luniwyd rhwng Llywodraeth Cymru, CLILC ac ACLI. Yn ogystal, yn dilyn y ddadl ar hawliau apelio trydydd parti deunw i'r casgliad bod yn rhaid i gymunedau gymryd mwy o ran mewn datblygiadau a phenderfyniadau cynllunio sy'n effeithio arnyn nhw. Dylai Gweinidogion Cymru fod â'r grym i wneud rheoliadau sy'n mynnu bod ymgynghoriadau yn cael eu cynnal cyn ymgeisio ar gyfer mathau diffiniedig penodol o geisiadau, ac i nodi ffurf yr ymgynghoriad. Rydym yn cefnogi cyfranogiad cynghorwyr mewn trafodaethau cyn gwneud cais ac yn argymhell y dylid gwneud astudiaeth beilot.
36. Cafodd cyfryngu ei grybwyll gan nifer o ymatebwyr. Mae defnyddio technegau datrys anghydfod amgen mewn cynllunio wedi bod yn destun astudiaethau yn y gorffennol, ond nid yw'r cyfle wedi ei greu yn y broses gynllunio eto. Rydym yn argymhell y dylai awdurdodau allu cyhoeddi penderfyniadau 'bwriadu' i ganiatáu ar gyfer cyfryngu i fynd i'r afael â'r materion sy'n destun anghydfod. Gallai'r gwasanaeth gael ei weinyddu a'i hyrwyddo gan y PYGC/PAIB gan ddefnyddio gwasanaethau sefydledig i ddatrys anghydfodau.
37. Rydym yn gwneud nifer o argymhellion er mwyn lleihau'r baich ar y system, ac rydym yn galw hyn yn ddileu 'Y 10%'. Mae'r rhain yn cynnwys: astudiaeth i gynhyrchu proses ymgeisio unedig; symud materion manwl megis BREEAM a'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy i reolaeth Rheoliadau Adeiladu; ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o ddiwygio'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, a sefydlu tîm cyngor gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud y defnydd mwyaf o Orchmynion Prynu Gorfodol, Parthau Cynllunio Syml a Gorchmynion Datblygu Lleol.
38. Ar ddiwedd **Pennod 4**, rydym yn troi at sut y byddwn yn mesur llwyddiant, o ran y modd y cyflenwir y system gynllunio ac effaith ein hargymhellion. Rydym yn ystyried bod angen proses adrodd ffurfiol, flynyddol fel bod **Adroddiad Perfformiad Blynyddol** statudol yn cael ei gynhyrchu i safon gyson, a sefydlir gan Lywodraeth Cymru ac a weithredir drwy'r PYGC/PAIB. Rydym yn argymhell ymgynghori ynghylch y fformat ac yn cyfeirio at waith Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a'r ymgynghoriad diweddar a wnaed gan Lywodraeth yr

Alban. Dylai pwrpas yr adroddiad ymwneud â chreu diwylliant o hunan-wella, fel bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn nodi pa gamau y gallant eu cymryd i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Rydym hefyd yn argymhell cymhellion ar gyfer cyflenwi da, ond yn cydnabod yr angen am gosbau ar gyfer achosion pan fetho popeth arall. Gellid gweithredu'r ddau gan un neu fwy o Weinidogion Cymru, gan roi ystyriaeth i natur drawsadrannol y system gynllunio.

39. Mae **Pennod 5** yn gwneud cyfres o argymhellion pellach i symleiddio a gwella darpariaeth. Mae'r rhwystredigaeth gyda'r prosesau gwahanol ym mhob awdurdod yn adlewyrchu canfyddiadau astudiaeth gynharach GVA Grimley. Nodir yr angen am ymgyrch i sicrhau mwy o gysondeb mewn nifer o feysydd gan gynnwys: dilysu ceisiadau; mân newidiadau i ganiatadau cynllunio; hysbysiad a chyhoeddusrwydd; safoni amodau cynllunio a chymalau Adran 106.
40. Rydym yn croesawu camau gweithredu diweddar Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r system 1APP a chngor cysylltiedig ar ddilysu. Ond er mwyn darparu ar gyfer hyblygrwydd rydym yn argymhell mwy o bwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru yn ymwneud â dilysu. Rydym hefyd yn ystyried y dylai'r modd y gweithredir system 1APP gael ei fonitro'n ofalus ac mai'r cyfnod ar gyfer herio dilysrwydd cais yw 6 wythnos, gyda gofyniad i ddangos rhagfarn.
41. Mae yna nifer o faterion yn ymwneud â gweithrediad Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 lle gellid gwneud gwelliannau i gael gwared ar ansicrwydd a chyflwyno hyblygrwydd. Rydym o blaid dychwelyd at y darpariaethau mwy hyblyg a oedd yn bodoli cyn 1993 ac rydym yn nodi'r telerau mwy hyblyg yn neddfwriaeth yr Alban. Rydym yn argymhell y dylid gwneud adolygiad o'r pwerau o dan A.106; newidiadau manwl i greu hyblygrwydd; a threfniadau mwy hyblyg ar gyfer cyflawni neu addasu rhwymedigaethau. Yn gysylltiedig â hyn rydym yn gwneud argymhellion ynghylch amodau model; yr angen am bŵer i atodi amod sy'n gwneud dechrau ar waith yn amodol ar gyflawni rhwymedigaeth, a gosod amodau sy'n ymwneud â gosod bondiau neu warantau ar gyfer gwaith adfer.
42. Er mwyn symleiddio'r broses o ddiwygio caniatâd cynllunio, rydym yn argymhell y dylid cymhwyso Adran 96A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref yn fuan, sy'n galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i gymeradwyo newidiadau heb fod yn berthnasol i ganiatadau. Rydym hefyd yn argymhell bod y Mesur Cynllunio yn gwneud darpariaeth ar gyfer mân newidiadau perthnasol i ganiatadau, gan bennu nodweddion gweithdrefn o'r fath. Er mwyn symleiddio a helpu i wneud pethau yn fwy eglur, dylid cael ffurf statudol newydd o ganiatâd cynllunio sy'n nodi cynlluniau a dogfennau a gymeradwywyd, y gellir eu diweddarw wrth i amodau gael eu cyflawni.
43. Rydym yn ystyried y dylai gofynion hysbysu a chyhoeddusrwydd gael eu hadolygu er mwyn annog ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddai rhai o'r gweithdrefnau a ddefnyddir yn system Gynllunio'r Alban yn gymorth i sicrhau

tryloywder a gorfodaeth, yn benodol hysbysiad o ddyddiad dechrau a chwblhau'r datblygiad, ac arddangos rhybudd ar y safle yn ystod y datblygiad.

44. Yn olaf, rydym yn delio â'r rhyngweithio rhwng y broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio a chyfundrefnau eraill ar gyfer rhoi caniatâd. Yn gyntaf, rydym yn argymhell bod y Bil Cynllunio yn gwneud darpariaeth i geisiadau cyfochrog gael eu gwneud am ganiatâd cynllunio ac unrhyw ganiatadau neu drwyddedau eraill angenrheidiol. Yn ail, rydym yn argymhell mesurau i wneud delio â materion priffyrdd, fel cau neu wyro, yn fwy effeithlon drwy fwy o gydsynio cyfochrog.
45. Mae **Pennod 6** yn cynnwys argymhellion am faterion heb eu datrys lle na ddylai'r cyfle a gyflwynir gan Fil Cynllunio Cymru gael ei golli. Rydym yn argymhell ymgynghori ar nifer o faterion yn ymwneud â gorfodi, gan gynnwys:
 - y pŵer i osod amodau ar ganiatâd cynllunio a roddwyd mewn ymateb i apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi
 - hysbysiadau cosb benodedig
 - gweithdrefn 'llythyr o sicrwydd'
 - darpariaeth i sicrhau bod datganiadau o gydymffurfiaeth yn cael eu cofnodi ar y gofrestr gyhoeddus ac i hysbysiadau wedi 'darfod' gael eu dileu
 - darpariaeth i'r ACLI gadarnhau i'r darpar brynwr beth yw'r camau heb eu cyflawni sydd eu hangen i gydymffurfio â hysbysiad gorfodi.
46. Nid ydym yn argymhell cyflwyno pwerau ôl-weithredol mewn perthynas â datblygiad cudd.
47. Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynghylch y diffiniad o ddechrau o dan y Deddfau Cynllunio, a symleiddio gweithdrefn y Rhybudd Cwblhau.
48. Buom yn ystyried y gwahaniaeth rhwng hyd caniatâd cynllunio yng Nghymru a Lloegr, ond ni ddaethom i sefyllfa y cytunwyd arni; barn y mwyafrif oedd na ddylai fod unrhyw newid yn hyd y caniatâd yng Nghymru. Mater i Lywodraeth Cymru yw penderfynu a ddylid ymgynghori ar y mater hwn.
49. Er mwyn cadw cymaint o hyblygrwydd â phosibl rydym o'r farn y dylai'r Bil Cynllunio gynnwys gweithdrefn ar wahân sy'n ei gwneud yn bosibl i geisiadau gael eu gwneud i ymestyn oes caniatâd cynllunio, gan gymryd i ystyriaeth y rhesymau dros beidio â gweithredu'r caniatâd, a allai gynnwys amodau'r farchnad.
50. Yn dilyn sylwadau gan y Gymdeithas Prynu Gorfodol, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei gylchlythyr ar brynu gorfodol i gymryd i ystyriaeth y diwygiadau i A.226 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yn ogystal, dylid sicrhau bod Adran 237 o Ddeddf Cynllunio 1990 yn cyd-fynd â Lloegr cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried dwyn ynghyd yr holl bwerau prynu gorfodol ar gyfer adfywio i mewn i un set o bwerau mewn Deddf ar wahân.

51. Mae **Pennod 7** yn ymdrin â goblygiadau ariannol ein hargymhellion. Rydym yn cydnabod yr hinsawdd ariannol bresennol a'r pwysau ar wariant cyhoeddus ac rydym wedi bod yn ymwybodol o'r angen i osgoi costau ychwanegol diangen. Fodd bynnag, mae gan y system cynllunio defnydd tir rôl ganolog fel mecanwaith cyflenwi sy'n torri ar draws llawer o feysydd polisi. Os yw Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld newid sylweddol yn effeithlonrwydd y system gynllunio a'i gallu i ddarparu, bydd hyn yn gofyn am rywfaint o fuddsoddiad. Serch hynny, credwn ei bod yn bosibl bod yn ddyfeisgar er mwyn sicrhau newid, yn enwedig trwy rannu adnoddau.
52. Rydym yn credu y byddai rhywfaint o'r Gronfa Gwella Cynllunio (PIF) yn cael ei defnyddio'n well i greu strwythurau i gefnogi Awdurdodau Cynllunio Lleol yn uniongyrchol, yn enwedig y PYGC/PAIB, yn hytrach na'i dyrannu mewn ymateb i geisiadau unigol gan awdurdodau. Sefydlu'r PYGC/PAIB yw'r mwyaf arwyddocaol o'n cynigion o ran cost. Serch hynny, mae yna opsiynau i leihau costau drwy ddefnyddio adeiladau dros ben Llywodraeth Cymru; rhannu costau gyda chyrff eraill megis Comisiwn Dylunio Cymru a CLILC; drwy secondiadau, a thrwy godi tâl am rai gwasanaethau. Rydym yn ystyried bod manteision y corff hwn yn cyfiawnhau'r gost.
53. Byddai cydweithio rhwng awdurdodau, gan gynnwys secondiadau, llety a rennir a gwasanaethau cymorth yn lleihau'r gost o gyflwyno cynllunio strategol ar lefel ranbarthol yn sylweddol. Byddai'r gwaith ychwanegol i'r Arolygiaeth Gynllunio wrth ymdrin ag isadeiledd yn cael ei ariannu'n rhannol gan ffioedd y ceisiadau; byddai adolygu cymeradwyaethau yn groes i argymhelliad swyddogion yn cael ei wrthbwysu gan arbedion a wneir drwy welliannau i'r broses apelio.
54. Bydd hyfforddiant Aelodau yn gofyn am fuddsoddiad gan ACLI, ond mae llawer yn digwydd eisoes; byddai'r PYGC/PAIB yn gwella ansawdd a chysondeb yr hyfforddiant. Rydym yn ystyried yr hyfforddiant hwn, fel llawer o'n hargymhellion, fel rhan o rôl a chyfrifoldeb y sefydliadau sy'n ymwneud â hyn ac yn rhan o'u busnes arferol. Rydym yn ystyried cynhyrchu'r Adroddiad Perfformiad Blyneddol yn yr un ffordd ac yn gweld hyn fel dull o helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol i nodi cyfleoedd i wella, o ran perfformiad ac effeithlonrwydd.
55. Mae **Pennod 8** yn amlinellu cyfres o 'enillion cyflym' y gellir eu rhoi ar waith heb aros am Fil Cynllunio. Mae cyflymder y modd y gellir cyflawni ein hargymhellion yn dibynnu ar ewyllys wleidyddol, yr adnoddau a'r arweiniad i sbarduno newid ar bob lefel.
56. Gallai statws Cynllun Gofodol Cymru a chynlluniau cenedlaethol eraill gael eu hegluro gan ddatganiad gan y Gweinidog. Gellid sefydlu PYGC/PAIB yn awr i sbarduno gwelliannau, cyn unrhyw ddeddfwriaeth i ategu ei weithrediad. Gallai gweithio gwirfoddol ar lefel strategol gan ACLI gael ei annog a'i arwain gan Lywodraeth Cymru. Gellid mynd ati i fireinio Cynlluniau Datblygu Lleol, fel y gellid mynd ati i weithio ar ein hargymhellion anstatudol ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol; yr adolygiad o faint Pwyllgorau Cynllunio, a chynlluniau peilot yn ymdrin â chyfranogiad yr aelodau mewn trafodaethau cyn cyflwyno cais.

Gellid ymgynghori a chytuno ynghylch fformat yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol, a gellid casglu gwybodaeth am benderfyniadau sy'n groes i argymhellion swyddogion. Gellid dwyn ynghyd argymhellion yr adroddiad hwn ac astudiaethau eraill o fewn set gynhwysfawr o newidiadau i'r broses rheoli datblygiad.

57. Ym **Mhennod 9** rydym yn rhoi ein casgliadau cyffredinol, gan nodi sut rydym yn rhagweld y dylai'r system gynllunio yng Nghymru edrych yn y dyfodol i lywio unrhyw ystyriaeth bellach o'r system yn ystod y gwaith o baratoi'r Bil Cynllunio. Mae'r egwyddorion yr ydym wedi eu dilyn yn mynd i'r afael â sybsidiaredd: mae swyddogaethau cynllunio yn cael eu cyflawni ar y lefel agosaf at eu heffeithiau, er mwyn creu'r amodau mwyaf effeithiol ar gyfer cyflenwi gwasanaeth. Rydym yn pwysleisio rôl y system gynllunio wrth ddarparu a'r angen am weithredu cydgysylltiedig ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau'r newidiadau rydym yn eu rhagweld.
58. Credwn ei bod yn iawn fod awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i gael y prif gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau cynllunio. Rydym wedi ceisio osgoi ychwanegu at fiwrocratiaeth ac wedi ceisio sicrhau bod darpariaeth leol yn fwy effeithiol ac yn cael ei mesur yn fwy trylwyr. Rydym yn cynnig diwygiad sylweddol, ond drwy esblygiad y system gynllunio a gyflwynwyd yn 1947, a addaswyd i gwrdd ag anghenion Cymru. Credwn fod y newidiadau a gynigiwn yn gyraeddadwy ac y byddant yn arwain at y gwelliant angenrheidiol i'r system gynllunio.